# Cylchlythyr Wythnosol Ysgol Pencae *Weekly Newsletter*

8.11.24

Annwyl Riant / Gwarcheidwaid,
*Dear Parent / Guardian,*

Croeso i gylchlythyr cyntaf ein hail hanner tymor. Hyderwn i chi gael wythnos hanner tymor da a dw i'n falch o rannu bod y disgyblion wedi setlo'n arbennig yn ôl yn yr ysgol.
*Welcome to our first newsletter of the second half term. We hope you had a good half term and I'm glad to share that the children have settled excellently back into school.*

## Wythnos Gwrth-fwlio a Diwrnod Plant Mewn Angen
## *Anti-bullying Week and Children in Need Day*

**12.11.24: Gwisgwch sanau rhyfedd / wear odd socks to school.**

Diwrnod sanau rhyfedd i ddathlu ein bod ni gyd yn unigryw ac i ddangos ein bod yn unedig yn erbyn bwlio.
*It's Odd Socks Day to celebrate that we are all unique and to show that we are united in saying no to any form of bullying.*

**15.11.24: Diwrnod Plant Mewn Angen / Children in Need Day**

Dewch i'r ysgol yn eich dillad eich hun. Byddwn yn casglu arian er budd yr elusen a bydd modd i chi gyfrannu trwy ParentPay.
*It's non-uniform day so come to school in your own clothes. We'll be collecting money in aid of Children in Need and if you would like to donate you can do so through ParentPay.*

**Bore Coffi Cynhwysiant a Lles / Inclusion and Wellbeing Coffee Morning**

**14.11.24**

Mae Mrs Cleverley wedi trefnu bore coffi ble mae modd i rieni / gwarchodwyr gyfarfod arbenigwyr llesiant a chynhwysiant y sir bore dydd Iau nesaf. Croeso cynnes i chi daro draw i'w cyfarfod, clywed am eu gwaith a chael sgwrs anffurfiol â nhw am unrhyw bryderon sydd gennych chi.

*Mrs Cleverley has arranged a coffee morning where parents / guardians can drop in to meet members of Cardiff's inclusion and wellbeing team. There's a warm welcome to anyone who would like to meet them, hear about their work and have an informal conversation with them about anything that might be worrying you.*







## Cais gan y GRhA / PTA Request

Os gwelwch yn dda a wnewch chi sicrhau eich bod yn diweddaru eich manylion ar Classlist. Mae llawer o docynnau sinema wedi eu prynu yn enwau disgyblion sydd ddim bellach yn yr ysgol. Felly a wnewch chi sicrhau bod enwau eich plant cyfredol yn yr ysgol yn gywir ynghyd â'u dosbarthiadau.

*Please can you update your children's details on Classlist. Many tickets have been brought for the Cinema that show pupil names that are not in the school. Please can you ensure that your children's details are accurate - names and classes, to make things easier for the PTA. Diolch!*

## Ein Senedd Ni

Yr wythnos hon, cafodd Orlando a Mali o flwyddyn 6 brofiad arbennig wrth iddyn nhw gynrychioli'r ysgol ar senedd Ysgolion Cymraeg Caerdydd - Ein Senedd Ni. Aeth y ddau lawr i'r Bae am daith o'r Senedd cyn cyfarfod gyda'r prif weinidog, Eluned Morgan. Byddan nhw nawr yn arwain gweddill yr ysgol yn eu gweithgarwch wrth ddatblygu ffocws cytûn ysgolion Cymraeg Caerdydd.



*This week, Orlando and Mali from year 6 went to the Senedd to represent the school on a pupil voice committee, Ein Senedd Ni. The committee has representatives from every Welsh primary school in the city. They enjoyed a tour of the Senedd before meeting Eluned Morgan. They will now lead the rest of the school in developing the priorities.*

### Hwylio'r Hawliau



Aeth aelodau Hwylio'r Hawliau lawr i Techniquest yr wythnos hon er mwyn cymryd rhan yng ngŵyl Hawliau Plant Caerdydd. Yn ystod y diwrnod fe wnaethon nhw fwynhau amryw o weithgareddau a chymryd rhan mewn amryfal weithdai. Dyma ddechrau gwych i'w blwyddyn o hyrwyddo hawliau plant yn yr ysgol.

*The Hwylio'r Hawliau committee (that works to promote and ensure children's rights in the school) went down to Techniquest to be part of the Children's Rights Festival. They took part in various activities and workshops. It was a great beginning to their year promoting children's rights.*

### Twrnamaint Pêl-droed yr Urdd *Football Tournament*

Dydd Mawrth aeth 3 tîm pêl-droed i dwrnamaint yr Urdd yn Lecwith. Roedd y disgyblion wrth eu boddau a gwelwyd pêl-droed arbennig gan ferched blwyddyn 5 a 6 a thîm pêl-droed blwyddyn 4. Cyrhaeddodd tîm blwyddyn 4 y rownd cyn derfynol tra bod merched blwyddyn 5 a 6 wedi brwydro o fewn eu grŵp. Gorau chwarae cyd-chwarae gan bob un!

*On Tuesday, three football teams went to the Urdd tournament at Leckwith. The pupils were in their element and we saw excellent football from the two girls teams from years 5 and 6 and from year 4's boys. Year 4's team reached the Semi-finals and the girls competed excellently within their group stage. Congratulations to all - Gorau chwarae cyd-chwarae!*



### Streetwise, Blwyddyn 6

Daeth Adran Diogelwch y Ffordd i mewn i'r ysgol i weithio gyda blwyddyn 6 yr wythnos hon. Aeth pob un o'r disgyblion ar daith cerdded o'r ysgol i Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf er mwyn sicrhau eu

diogelwch wrth gerdded i'r ysgol yn annibynnol. Fel rhan o'r hyfforddiant roedden nhw hefyd yn ymarfer darllen amserlen bws!

*The Road Safety department in Cardiff came in to work with year 6 pupils this week. Every pupil walked down to Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf to ensure that they walked safely independently. As part of the training they also practised to read a bus timetable!*

**Gwasanaeth gan Tanvier / Tanvier Assembly**

Fe groesawon ni Tanvier Ahmed yn ôl i'r ysgol i gynnal gwasanaeth a oedd yn egluro ei grefydd, Islam. Roedd yn canmol cwestiynau ac aeddfedrwydd ein disgyblion wrth iddyn nhw ddangos diddordeb a pharch at ei gred.

*We welcomed Tanvier Ahmed back to the school this week to hold an assembly introducing his religion, Islam. He was full of praise for our pupils for their questions and their maturity as they showed interest and respect towards his religion.*

**Ymaelodi gyda'r Urdd Membership**

Mae'r amser wedi dod i ail ymaelodi gyda'r Urdd. Os ydych yn dymuno bod eich plentyn yn aelod o'r Urdd er mwyn manteisio a chystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd - yn yr Eisteddfod neu dwrnameintiau chwaraeon, yna dilynwch y ddolen isod er mwyn eu cofrestru.

*The time has come to renew your child's Urdd membership. If you wish for your child to be a member of the Urdd and compete in the Urdd competitions, both Eisteddfod activities and sports tournaments, please follow the link below to register your child.*

# Ymuno gyda'r Urdd / *Join the Urdd*

**Clybiau / *Clubs***

| | **Dydd Llun**<br>***Monday*** | **Dydd Mercher**<br>***Wednesday*** | **Dydd Iau**<br>***Thursday*** | ***Dydd Gwener***<br>***Friday*** |
|---|---|---|---|---|
| ***12.45 - 13.15*** | | | | **BI3-6**<br>Clwb Chwaraeon Urdd<br>Urdd Sports Club<br><br>archebu lle / book a place |
| ***3.30 - 4.30*** | *Clwb Canu (singing)*<br><br>*Clwb Pêl-rwyd (netball)* | *Dancefit* | ***Code Club***<br>Aelodau yn unig / members only<br><br>***3.30 - 5.30***<br>*CRhA Sinema Pencae Cinema PTA* | |

ysgolpencae@caerdydd.gov.uk ysgolpencae www.ysgolpencae.cymru 02920 563 851

Mwynhewch y penwythnos / *Enjoy the weekend*,

Siwan Dafydd

| **Mis Hydref**<br>**Sialens Siarter Iaith y Teulu**<br>***Language Charter Family Target*** | **Mis Hydref**<br>**Proc i'r Cof Diogelwch ar y We**<br>***Internet Safety Tip*** | **Mis Hydref**<br>**Hawliau Plant**<br>***Children's Rights*** |
|---|---|---|
| Beth am ddweud diolch yn Gymraeg bob tro.<br><br>*How about using Diolch (thank you) in Welsh everytime you shop.* | Mae Kiddle yn borwr gwe fwy diogel i blant.<br><br>*Kiddle is a safer web browser for children.* | Ni ddylech gael eich niweidio a dylech gael gofal a'ch cadw'n ddiogel.<br><br>*You should not be harmed and should be looked after and kept safe.* |

| **Cysylltiadau Defnyddiol / Helpful Links:** |
|---|
| Ffurflen Meddyginiaeth / Medicine Form |
| Ffurflen Gwyliau / *Holiday Form* |
| Clwb Carco |
| Gwaith cartref / Home Work    bit.ly/gwaithcartrefPC |

**DYDDIADUR YR YSGOL / SCHOOL DIARY**

**Dyma ddyddiadau a bydd mwy o fanylion yn nes at yr amser**

**Here are key dates and more information will be shared nearer the time**

| Dyddiad / Date | Digwyddiad / Event |
|---|---|
| **11.11.24** | **Bl6:** Gwasanaeth y Cadoediad, Sgwâr Llandaf<br>Remembrance Service, Llandaf Cenitaph |
| **12.11.24** | **Bl2:** Sinema Chapter i wylio Deian a Loli<br>Chapter Cinema to watch Deian a Loli |
| **13.11.24** | **Bl6: Trip:** Teml Hindŵaidd Grangetown a Amgueddfa Caerdydd<br>Grangetown Hindu Temple and Cardiff Museum |
| **14.11.24** | **CRhA / PTA:** Sinema Pencae Cinema |
| **15.11.24** | **Diwrnod Plant Mewn Angen** - cyfraniad at yr elusen a bydd gwisg anffurfiol (bydd mwy o wybodaeth i ddilyn gan y Senedd)<br>**Children in Need** - we will organise a collection for the charity and it will be a non-uniform day (more information will follow) |
| **18.11.24** | **Bl6:** Gwylio Sioe Ysgol Glantaf<br>Watching Ysgol Glantaf's Show |
| **18.11.24** | **Bl6:** Dyddiad Cau ceisiadau ysgol uwchradd<br>Deadline for Secondary School Applications |
| **22.11.24** | **CRHA / PTA:** Stondin Gwisgoedd Nadoligaidd Ail Law (iard)<br>Pre-loved Christmas Clothes Stall (yard) |
| **26.11.24** | **Bl6:** Trip Crucial Crew<br>Crucial Crew Trip |
| **26.11.24** | **Bl3:** Trip i'r sinema, The Jungle Bunch World Tour (Cineworld)<br>Cinema Trip, The Jungle Bunch World Tour (Cineworld) |
| **3.12.24**<br>**5.12.24** | **Derbyn, Blwyddyn 1 a 2:** Sioe Nadolig yr adran Dysgu Sylfaen<br>**Reception, year 1 and 2:** Foundation Learning Christmas Show |
| **5.12.24** | **Stondin Gacennau Bl6 ar yr iard -** dewch â phres gyda chi os am gacen. Bydd yr elw yn mynd at barti diwedd cyfnod blwyddyn 6.<br>**YR6 Cake stall on the yard** - bring money if you want a cake. The profit will go towards year 6' end of an era party. |
| **6.12.24** | **Dros 7:** ymarfer Gwasanaeth Nadolig yn y Gadeirlan<br>**Over 7's**: Christmas Service Practice at the Cathedral |
| **10.12.24** | **Bl1 a 2:** Mynd i'r Sherman: Yr Hugain Fach Goch<br>Going to the theatre: Little Red Riding Hood |
| **13.12.24** | **Ffair Nadolig / Christmas Fair**<br>Ar dir yr ysgol yn syth ar ôl ysgol / *On School grounds straight after school* |
| **17.12.24** | **Derbyn a Bl1:** Trip i sioe Cyw |

| | |
|---|---|
| | **Reception and Year 1:** Trip to Cyw Christmas Show |
| **18.12.24** | **Bl3-6:** Gwasanaeth Nadolig yn y Gadeirlan 9.30yb<br>Cathedral Christmas Service - 9.30am |
| **20.12.24** | Diwrnod Olaf tymor yr Hydref / Last Day of Autumn Term<br>**23.12.24 - 6.1.25:** Gwyliau Nadolig / Christmas Holiday |
| **6.1.25** | Diwrnod HMS / Inset Day |
| **7.1.25** | Disgyblion nôl yn yr ysgol<br>Pupils back in school |
| **3.2.25** | Diwrnod HMS / Inset Day |
| **24.2.25 - 28.2.25** | Hanner Tymor / Half Term |
| **17.3.25 - 21.3.24** | **Bl5:** Gwersi Seiclo<br>Cycling Lessons |
| **9.4.25 - 11.4.25** | **Bl4:** Maes y Fron<br>Call of the Wild |
| **11.4.24** | Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn / Last Day of Spring Term<br>**14.4.25 - 25.4.25:** Gwyliau Pasg / Easter Holiday |
| **26.5.25 - 30.5.25** | Hanner Tymor / Half Term |
| **2.6.24 - 3.6.24** | **Bl3:** Pentre Ifan a Chastell Henllys<br>Pentre Ifan and Castell Henllys |
| **9.6.25 - 20.6.25** | **Bl3:** Gwersi Nofio<br>*Swimming Lessons* |
| **18.7.25** | Diwrnod ola'r tymor / Last Day of term<br>**2.30pm:** Gwasanaeth Gadael Blwyddyn 6 Leavers Assembly |
| **21.7.25** | Diwrnod HMS / Inset Day |